Polisi Codi Tâl

Cyflwyniad

Mae'r holl addysg o fewn oriau ysgol yn rhad ac am ddim. Nid ydym yn disgwyl codi tâl am unrhyw weithgaredd caiff ei gynnal fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac eithrio peth hyfforddiant cerddorol unigol neu mewn grŵp bychan

Cyfraniadau gwirfoddol

Wrth drefnu tripiau ysgol neu ymweliadau i gyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad addysgiadol y plant, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i gyfrannu tuag at y gost. Mae pob cyfraniad yn wirfoddol. Os nad ydynt yn derbyn digon o gyfraniadau gwirfoddol, mae'n bosibl bydd rhaid canslo'r trip. Os bydd y trip yn mynd yn ei flaen, efallai bydd yn cynnwys plant sydd â'u rhieni heb wneud unrhyw gyfraniad. Nid ydym yn trin y plant yma yn wahanol i unrhyw un o'r lleill.

Os yw rhiant yn dymuno i'w plentyn gymryd rhan mewn trip neu ddigwyddiad ysgol, ond yn amharod neu heb fod yn gallu gwneud cyfraniad ariannol, rydym yn caniatáu i'r plentyn gyfranogi'n llawn yn y trip neu'r gweithgaredd. Ar adegau mae'r ysgol yn talu'r gost ychwanegol i gynnal yr ymweliad.

Mae'r canlynol yn rhestr o weithgareddau, a drefnir gan yr ysgol, sydd angen cyfraniadau gwirfoddol oddi wrth y rhieni. Caiff y gweithgareddau yma eu hadnabod fel 'ychwanegiadau opsiynol'. Nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr:

- ymweliadau i amgueddfeydd;
- gweithgareddau chwaraeon sydd yn golygu costau teithio;
- gweithgareddau antur awyr agored;
- ymweliadau i neu gan gwmni theatr;
- tripiau ysgol;
- digwyddiadau cerddorol.

Ymweliadau preswyl

Os bydd yr ysgol yn trefnu ymweliad preswyl yn ystod amser ysgol, neu'n bennaf yn ystod amser ysgol, sydd i ddarparu addysg a berthyn yn uniongyrchol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol, nid ydym yn codi unrhyw dâl am yr addysg na'r costau teithio. Fodd bynnag, rydym yn codi tâl i gyflenwi cost bwyd a lletya.

Hyfforddiant cerddorol

Mae pob plentyn yn astudio cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Nid ydym yn codi tâl am hyn.

Codir tâl am hyfforddiant cerddorol unigol neu grŵp bychan, gan fod hyn yn weithgaredd cwricwlwm ychwanegol a ddim yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Addysgir y gwersi unigol neu grŵp bychan yma gan athrawon cerdd teithiol - rydym yn codi tâl am y gwersi yma. Rydym yn rhoi gwybodaeth i rieni ar ddechrau pob blwyddyn academaidd am hyfforddiant cerdd ychwanegol.

Nofio

Mae'r ysgol yn trefnu gwersi nofio ar gyfer plant Blwyddyn 5 yng Nghyfnod Allweddol 2. Rydym yn hysbysu'r rhieni o ba bryd mae'r gwersi yma i gymryd lle, a gofynnwn i rieni am eu caniatâd ysgrifenedig i'w plentyn gymryd rhan ac am gyfraniad tuag at y gwersi.

Bws mini

Fel arfer rydym yn codi tâl os yw plant yn cael eu cludo yn y bws mini i weithgaredd allgyrsiol. Fodd bynnag, rydym ond yn defnyddio'r taliadau yma i gyflawni costau'r trip ac nid i wneud elw.

Monitro ag adolygu

Caiff y polisi yma ei fonitro gan y corff llywodraethol, a gaiff ei adolygu mewn tair blynedd, neu ynghynt os bydd angen.